



## **Polisi a Gweithdrefn Arian Grant**

Cymeradwywyd Ionawr 2017

**MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG**

# **SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU**

## **POLISI A GWEITHDREFN ARIAN GRANT**

### **POLISI**

Nod y polisi hwn yw sicrhau, pan fydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent yn dyfarnu arian grant, y rhoddir sylw dyledus i ofynion safonau'r Gymraeg a osodwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yr egwyddor y tu ôl i'r polisi hwn yw bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a/neu unrhyw unigolyn arall o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau sy'n rhan o brosesau gwneud penderfyniadau, yn rhoi sylw dyledus i'r effeithiau ar y Gymraeg wrth ddyrannu grant neu gomisiynu gwasanaeth. Yn benodol, bydd ceisiadau a ddaw i law yn Gymraeg yn cael eu trin yn deg ac yn yr un modd a'r rhai a ddaw i law yn Saesneg.

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu ceisiadau a wneir i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau o dan y Strategaeth Comisiynu.

### **GWEITHDREFN**

#### **1. CEISIADAU AM GYLLID**

Pan fyddwn yn trefnu i arian fod ar gael i'r cyhoedd wneud cais amdano, byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- Bydd unrhyw ffurflenni mewn perthynas â'r broses gwneud cais am arian ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.
- Caiff argaeledd dogfennaeth Gymraeg ei nodi yn y fersiwn Saesneg.
- Caiff dogfennau mewn perthynas â cheisiadau am grant eu cyhoeddi yn Gymraeg, ac ni chaiff fersiynau Cymraeg dogfennau o'r fath eu trin yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg.
- Bydd gwahoddiadau ar gyfer ceisiadau am grantiau yn nodi y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.
- Ni chaiff ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg a bydd yr un amserlenni ar gyfer dyddiadau cau a rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau yn gymwys i'r ddau fath.

- Os daw cais i law yn Gymraeg a bod angen cyfweld â'r ymgeisydd fel rhan o'n hasesiad o'r cais, byddwn yn:
  - (a) Cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a
  - b) Os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw
- Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ymgeisydd am benderfyniad mewn perthynas â chais am grant, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg os cafodd y cais ei gyflwyno yn Gymraeg;.

## 2. ARIAN AR GYFER DIGWYDDIADAU CYHOEDDUS

Os bydd o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus yn cael ei ariannu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, bydd y cytundeb grant yn nodi:

- Wrth hyrwyddo'r digwyddiad, na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (er enghraifft, yn y modd y caiff y digwyddiad ei hysbysebu neu ei hyrwyddo).
- Na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y digwyddiad (er enghraifft, o ran y gwasanaethau a gynigir i'r bobl sy'n mynychu'r digwyddiad, o ran arwyddion a arddangosir yn ystod y digwyddiad ac o ran cyhoeddiadau sain a wneir yn ystod y digwyddiad).

## 3. ASESU'R EFFAITH

Wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â dyfarnu grant, byddwn yn ystyried:

- Pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n gadarnhaol neu'n negyddol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar:
  - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar:
  - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar:
  - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- A oes angen gofyn i'r ymgeisydd am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar:
  - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
  - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### 4. COMISIYNU YMCHWIL

Wrth gomisiynu neu gynnal ag ymchwil sydd â'r nod o gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau polisi, byddwn yn sicrhau bod ymchwil yn ystyried:

- Pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n gadarnhaol neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sy'n cael ei ystyried yn eu cael ar:
  - (a) cyfleoedd eraill i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - (b) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sut y gellid gwneud penderfyniad polisi sy'n cael ei ystyried fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar
  - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Sut y gellid gwneud penderfyniad polisi sy'n cael ei ystyried fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar
  - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg; a
  - (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.